Royal Kennel Club

# Maniffesto y Bobl Cŵn

Galw ar y Llywodraeth newydd i helpu perchnogion cŵn y wlad i allu prynu cŵn iach a gofalu am eu hanifeiliaid anwes yn well





# Cyflwyniad gan Adrian Marett, Ysgrifennydd, y Royal Kennel Club

Rwy'n berson cŵn ac wedi byw gyda chŵn ar hyd fy oes. Dydw i ddim yn unigryw; mae gan dros draean o oedolion sy'n byw yng Nghymru gŵn anwes[1] ac mae'n hanfodol bod pobl yn dal i fwynhau'r manteision a geir o fod yn berchen ar gi a bod hanes Cymru fel 'gwlad sy'n caru cŵn' yn parhau. Mae bod yn berchen ar gi yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar iechyd meddwl pawb, o bobl hŷn i bobl ifanc fel ei gilydd, y rhai a allai fod ar ymylon cymdeithas, yn ogystal â'r rhai a allai fod yn unig, ac mae'n annog gweithgarwch corfforol drwy gerdded yn rheolaidd.

Rydym yn galw ar y Llywodraeth newydd i ystyried ffyrdd y gallant helpu 'pobl cŵn' trwy eu hystyried yn briodol wrth awgrymu ffyrdd ymlaen i wella lles cŵn.

1 Mae un o bob tri chartref bellach yn berchen ar gi - BBC News

# Bridio

Yn ein barn ni, yr hyn sy'n allweddol i wella iechyd, lles ac ymddygiad cŵn yw sicrhau cyflenwad da o gŵn bach wedi'u bridio'n gyfrifol. Mae bridwyr cŵn sy'n gwneud hynny fel hobi wedi bod yn gonglfaen i fridio cŵn am y 150 mlynedd diwethaf.

Fel yr unig sefydliad sy'n canolbwyntio ar les ac sy'n cynrychioli bridwyr cŵn, rydym yn galw ar y Llywodraeth newydd i helpu pobl sydd eisiau bridio cŵn bach iach trwy gyfyngu'r baich rheoleiddiol ar fridwyr cartref a chyflwyno dull symlach o drwyddedu sy'n seiliedig ar haenau. Rydym yn deall y bydd y Llywodraeth efallai am adolygu eu rheoliadau bridio cŵn eu hunain ar ôl yr etholiad, ac rydym yn gobeithio'n fawr y bydd bridwyr cŵn cyfrifol yn cymryd rhan yn y broses.

Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol yn eithaf dryslyd, gyda rheoliadau bridio yn berthnasol i'r rhai sy'n bridio 3 thorraid y flwyddyn neu fwy, ond yna mae angen trwydded gwerthu anifeiliaid anwes ar gyfer y rhai sy'n bridio 1 neu 2 dorraid sy'n cael eu hystyried 'yn y busnes' o werthu cŵn bach. Nid ydym yn credu bod y gymuned sy'n bridio niferoedd isel yn ymwybodol o'r drwydded gwerthu anifeiliaid anwes ac felly o ganlyniad efallai nad yw'r rheoliadau'n cael eu gorfodi fel y bwriadwyd – o bosibl oherwydd bod yr elfen 'prawf busnes' o'r rheoliadau gwerthu anifeiliaid anwes yn achosi dryswch ymhlith bridwyr ac awdurdodau lleol.



Rydym wedi dysgu oddi wrth Loegr bod gofynion trwyddedu anymarferol - nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd, yn benodol i frid ar gyfer bridwyr niferoedd isel o ran gweinyddiaeth a biwrocratiaeth - wedi atal llawer[2]. Mae hyn wedi arwain at gyflenwad llai o gŵn gan fridwyr sy'n bridio niferoedd isel ac sy'n rhoi pwyslais ar eu lles.

O ganlyniad, mae ffermwyr cŵn bach anghyfreithlon sy'n bridio niferoedd mawr, gyda hwsmonaeth wael a diffyg gofal, ynghyd â rhai sy'n mewnforio o Ewrop, yn llenwi'r bwlch yn y farchnad er anfantais i iechyd a lles hirdymor cŵn anwes.

Felly byddem yn argymell:

- Ailwampio rheoliadau bridio a gwerthu anifeiliaid anwes a bod y rheoliadau deuol yn cael eu disodli gan ddull clir o reoliadau bridio sy'n seiliedig ar haenau lle byddai'r fframwaith rheoleiddio, er enghraifft, yn amrywio yn dibynnu ar sawl torraid sy'n cael eu bridio a'r bridiau y mae'r bridiwr yn eu bridio.

- Er mwyn dod â mwy o hyblygrwydd i'r drefn reoleiddio ar gyfer y rhai sy'n bridio un neu ddau dorraid y flwyddyn, ystyried a yw profion iechyd a sgrinio wedi'u cydnabod.

- Er mwyn annog arferion bridio da ymhellach, bod y Llywodraeth yn gweithio'n agosach gyda'r Royal Kennel Club a chlybiau bridio i hwyluso rhaglen fentora lle mae'r rhai sy'n bridio'n amlach neu sydd â mwy o wybodaeth am fridio cŵn yn cael eu paru â phobl sy'n cynllunio ar gyfer eu torraid cyntaf o gŵn bach.

- Er mwyn cynorthwyo prynwyr cŵn bach, dylai contractau cŵn bach fel contract cŵn bach y Royal Kennel Club gael eu hargymell gan y Llywodraeth i helpu i sicrhau bod pob bridiwr yn cadw at safonau iechyd a lles sylfaenol, gan gynnwys cymryd eu ci bach yn ôl os nad yw'r perchennog newydd yn gallu gofalu amdano, er mwyn lleihau'r straen sy'n cael ei roi ar ganolfannau achub.

- Yn ogystal â hyn, er mwyn dilyn yr hyn sydd wedi'i roi ar waith yn yr Alban, gallai'r Llywodraeth ddatblygu Cod Ymarfer i'r rhai sy'n dymuno prynu ci bach i geisio sicrhau bod y broses yn cael ei hystyried yn llawn.

---

2 Ar ôl cyflwyno Rheoliadau 2018, lleihaodd llawer o fridwyr niferoedd isel nifer y toreidiau y maent yn eu bridio, gyda rhai yn rhoi'r gorau i fridio cŵn bach yn gyfan gwbl. Yn seiliedig ar ein data cofre stru cŵn bach, gwelwyd bod 20-25,000 yn llai o gŵn bach y flwyddyn yn cael eu bridio a'u cofrestru gyda ni gan fridwyr niferoedd isel yn dilyn newidiadau rheoleiddiol 2018. O ystyried bod cŵn bach a gofrestrir gan y Royal Kennel Club yn cyfrif am oddeutu traean o'r cyflenwad blynyddol yn unig, gallai hyn fod wedi arwain at dros 50,000 yn llai o gŵn bach bob blwyddyn yn cael eu bridio gan fridwyr niferoedd sel.

# Mewnforio cŵn bach - rheoliadau mewnforio cathod, cŵn a ffuredau

Ar adeg ysgrifennu'r sylwadau hyn, mae gennym bryderon pellach am ganlyniadau anfwriadol posibl y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau) sy'n debygol o dderbyn Cydsyniad Brenhinol cyn bo hir a byddai'n berthnasol ledled y DU.

Rydym yn croesawu'r Bil gan fod gennym bryderon difrifol am yr amgylchiadau lle mae nifer fawr o gŵn bach yn cael eu mewnforio'n anghyfreithlon mewn amodau gwael a gyda phroblemau iechyd a chymdeithasu – a'r effaith anochel ar sefydliadau achub o ganlyniad i fridio gwael. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda chymuned o fridwyr, sydd, am resymau sy'n ymwneud ag ehangu'r gronfa genynnau o fewn eu brîd dewisol, a bridio rhag bod ganddynt gyflyrau iechyd penodol, yn mewnforio cŵn bach sy'n iau na 6 mis oed. Fodd bynnag, dim ond un ci bach y byddant yn ei fewnforio ar y tro, a bydd y mwyafrif yn mewnforio dim ond un ci bach y flwyddyn (neu hyd yn oed yn llai aml). Maent yn mewnforio'r ci bach tra mae yn ifanc gan ei bod yn hanfodol i'w allu i gymdeithasu a'i ymddygiad yn y dyfodol ei fod gyda'i berchennog newydd mor agos at 15 wythnos oed â phosibl.

Mae Clwb Kennel Cymru yn annog bridwyr i edrych ar gyfernodau (coefficients) mewnfridio cyn mynd ati i fridio er mwyn sicrhau bod iechyd a lles hirdymor y brîd yn cael ei flaenoriaethu. Os nad yw'r rhai sy'n mynd i drafferth ac sy'n talu swm sylweddol  (cyfanswm o filoedd o bunnoedd), i wneud hynny trwy fewnforio, yn gallu gwneud hynny mwyach, byddwn yn pryderu am gynnydd mewn problemau iechyd genetig yn enwedig o fewn bridiau llai gan y gallai'r galw am gŵn bach wedyn gael ei ddiwallu gan fridwyr sy'n rhoi llai o bwyslais ar les ac sy'n cael eu cymell am resymau masnachol, heb roi llawer o sylw i fridio cŵn heb diffygion iechyd.

Felly, rydym yn galw ar y Llywodraeth newydd i weithio gyda Defra ar fanylion y Rheoliadau gyda'r bwriad o sicrhau bod y cynllun trwyddedu (sydd wedi'i ymgorffori yn y Bil) ar gael i'w ddefnyddio gan fridwyr sy'n gallu dangos bod angen gwirioneddol, o safbwynt amrywiaeth genetig, i gael caniatâd i fewnforio ci ifanc sengl o dan chwe mis oed. Credwn y gellid cyflawni hyn yn rhwydd heb greu gwendidau diangen yn y drefn.

# Cŵn pengrwn/wyneb-fflat fel Cŵn Smwt, Cŵn Tarw a Chŵn Tarw Ffrengig

Er bod llawer o feirniadaeth ynglŷn â sut mae cŵn wyneb-fflat wedi cael eu bridio, yr hyn sydd wedi gwaethygu arferion bridio gwael yw eu poblogrwydd ymhlith y cyhoedd sy'n berchen ar gŵn, yn ogystal ag asiantaethau hysbysebu a'r cyfryngau cymdeithasol. Er efallai bod y galw amdanynt wedi cyrraedd y brig ac yn amlwg bellach yn lleihau, mae'r Royal Kennel Club yn dal i gofrestru nifer uchel o'r bridiau hyn ac mae eu hiechyd a'u lles yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau ein gwaith. Yn 2016 fe wnaethom sefydlu'r Gweithgor Cŵn Pengrwn (BWG), y cyntaf o'i fath, sy'n cynnwys ni ein hunain ynghyd â chyrff academaidd, milfeddygol a lles, yn ogystal â swyddogion y llywodraeth a chlybiau bridio. Mae'r BWG yw anelu at fyd lle nad oes unrhyw gi yn profi problemau lles sy'n gysylltiedig ag iechyd y gellir eu priodoli i broses fridio ddetholus ar gyfer y cydffurfiad pengrwn. Hyrwyddair y grŵp yw 'stopiwch a meddyliwch cyn prynu ci wyneb-fflat', ond nid yw'r neges hon ar ei phen ei hun yn ddigon.

Yn hytrach na dim ond tynnu sylw at y risgiau o fod yn berchen ar gi pengrwn nodweddiadol, rydym yn cydnabod bod angen i ni hefyd sicrhau y gellir eu bridio gyda phwyslais ar eu hiechyd a'u lles fel y gall darpar berchnogion gael enghraifft iach o'r brîd y maen nhw'n dymuno ei gadw. Dyma pam rydym wedi buddsoddi adnoddau sylweddol mewn datblygu cynllun Mesur Gweithrediad Anadlol Prifysgol Caergrawnt/y Royal Kennel Club a gydnabyddir yn rhyngwladol; yr unig gynllun sy'n asesu gallu ci i anadlu ac yn darparu gradd i gynghori ynghylch a ddylid bridio ohono.

Rydym yn galw ar y Llywodraeth newydd i helpu pobl i sicrhau bod eu cŵn yn byw bywydau hapus ac iach trwy:

- Annog ac addysgu bridwyr a phrynwyr cŵn bach ynghylch manteision y cynllun Graddio Gweithrediad Anadlol a'i bwysigrwydd i iechyd a lles y bridiau cŵn y maent wedi'u dewis. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yma [Respiratory Function Grading Scheme | Royal Kennel Club]



# Cŵn peryglus a chŵn 'XL Bully'

Roedd y Royal Kennel Club yn siomedig fod cŵn 'XL Bully' wedi'u hychwanegu at y rhestr cŵn peryglus o dan y Ddeddf Cŵn Peryglus, sy'n hen ac wedi colli ei hygrededd, ac sydd wedi profi dro ar ôl tro i fod yn ddull aneffeithiol o atal ymosodiadau gan gŵn a marwolaethau. Mae'r gwaharddiad wedi achosi pryder a rhwystredigaeth ymhlith perchnogion cŵn a allai ddod o dan y disgrifiad eang iawn o beth yw 'XL Bully', gan nad yw'n frîd sydd wedi'i gofrestru gan y Royal Kennel Club gyda safon y brîd. Rydym yn deall nad mater datganoledig yw hwn, ond credwn y byddai'n fuddiol i'r Llywodraeth newydd weithio ar strategaethau ataliol mwy effeithiol. Mae angen strategaeth ataliol niwtral o ran brîd, sy'n targedu achosion sylfaenol digwyddiadau'n ymwneud â chŵn peryglus—perchnogaeth anghyfrifol, hyfforddiant gwael, a diffyg ymyrraeth gynnar.

Byddem yn argymell:

- Bod Llywodraeth Cymru'n pwyso ar Lywodraeth y DU i gynnal adolygiad llawn o ddata sy'n ymwneud â digwyddiadau cŵn a sut mae'r gyfraith yn gweithio, i symud tuag at system sy'n cofnodi digwyddiadau'n glir, yn dal perchnogion anghyfrifol i gyfrif, ac yn diogelu'r cyhoedd yn seiliedig ar dystiolaeth.

- Bod Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu, Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector i sicrhau bod ganddynt y pwerau a'r adnoddau i weithredu'n gynnar - addysgu, cefnogi, a lle bo angen, ymyrryd â pherchnogion cŵn i atal problemau cyn iddynt waethygu.

Credwn hefyd na fyddai trwyddedu perchennog cŵn yn ateb effeithiol i ddelio â'r mater hwn. Darllenwch fwy yn ein hadroddiad trwyddedu cŵn.



# Tai rhent preifat a chymdeithasol

Mae'r sectorau rhentu preifat a chymdeithasol yn rhwystr sylweddol i berchnogaeth anifeiliaid anwes yng Nghymru. Er gwaethaf y ddibyniaeth gynyddol ar y sector rhentu preifat, ar hyn o bryd dim ond wyth y cant o denantiaid preifat yng Nghymru sy'n dweud bod eu cartref wedi'i hysbysebu fel un sy'n gyfeillgar i anifeiliaid anwes[3]. Mae'r diffyg llety cyfeillgar i anifeiliaid anwes yn gorfodi llawer o denantiaid i wneud dewis anodd rhwng cadw eu hanifeiliaid anwes neu sicrhau cartref.

Mae polisïau anifeiliaid anwes cyfyngol nid yn unig yn un o brif achosion rhoi'r gorau i gadw anifeiliaid anwes, ond maent yn golygu nad yw tenantiaid yn cael y manteision iechyd meddwl a chorfforol a geir yn sgil bod yn berchen ar anifeiliaid anwes. Gallai hyn danseilio blaenoriaethau ehangach y llywodraeth fel Pwysau Iach: Cymru Iach[4]

a Chymunedau Cysylltiedig[5]. Mae ymchwil yn dangos bod 82% o denantiaid sy'n berchen ar anifeiliaid anwes yn teimlo'n eu bod wedi setlo'n well yn eu cartrefi ac yn fwy tebygol o aros mewn tenantiaethau hirdymor—sydd o fudd i landlordiaid a thenantiaid. Er bod landlordiaid yn aml yn dweud bod difrod i'w heiddo yn destun pryder[6], yn ôl ymchwil ddiweddar[7]: dywedodd 76% o landlordiaid nad oedd unrhyw ddifrod gan anifeiliaid anwes; ar gyfartaledd, cyfanswm y gost a adroddwyd gan landlordiaid yn sgil difrod oedd yn gysylltiedig ag anifeiliaid anwes oedd £300, o'i gymharu â £775 ar gyfer difrod nad oedd yn gysylltiedig ag anifeiliaid anwes; ac ar gyfartaledd, gall landlordiaid ddisgwyl ennill mwy yn ariannol o rentu i denantiaid ag anifeiliaid anwes nag y maent yn ei wario ar dreuliau cysylltiedig.

---

3 Dogs Trust a Cats Protection (2021) Arolwg Anifeiliaid Anwes a Landlordiaid. Ar gael ar gais.

4 Pwysau Iach Cymru

5 Strategaeth Cymunedau Cysylltiedig

6 Effaith ariannol bod yn berchen ar anifeilaid anwes mewn eiddo ar rent

7 Effaith ariannol bod yn berchen ar anifeilaid anwes mewn eiddo ar rent

Rydym yn cefnogi Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru (CAWGW) wrth iddynt alw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno Bil llawn i wella mynediad i eiddo sy'n gyfeillgar i anifeiliaid anwes yn y sector rhentu preifat a chymdeithasol, gyda deddfwriaeth i:

- Gyflwyno'r hawl i ofyn am anifail anwes heb fod y cais yn cael ei wrthod yn afresymol gan y landlord.
- Darparu egwyddorion arweiniol o'r hyn sy'n sail afresymol dros wrthod.
- Sicrhau y cedwir at y penderfyniadau ynghylch anifeiliaid anwes trwy gydol y denantiaeth.
- Ehangu amddiffyniadau gwahaniaethu cyn-tenantiaeth i berchnogion anifeiliaid anwes presennol.
- Cyflwyno uchafswm cyfnod ymateb o 28 diwrnod i landlordiaid (gan gynnwys uwchlandlordiaid) ymateb i gais i gadw anifail anwes.

Rhaid i Gymru fabwysiadu dull cynhwysol o ran perchnogaeth anifeiliaid anwes mewn llety rhent preifat a chymdeithasol - un sy'n adlewyrchu'r realiti presennol o fewn y sectorau a gwerth y cyswllt rhwng pobl ac anifeiliaid.

***Fel sefydliad sy'n buddsoddi'n llawn mewn gwella iechyd a lles cŵn a gweithio gyda bridwyr cyfrifol, edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda'r Llywodraeth newydd.***



Royal Kennel Club

royalkennelclub.com